# Naw moment dreftadaeth 'drawsnewidiol' a wnaed yn bosibl gan arian y Loteri Genedlaethol

19/11/2024
Yn dathlu effaith 30 mlynedd o roi grantiau, o’r amgylchedd naturiol i’n hetifeddiaeth forwrol a thrafnidiaeth.

Ers iddi lansio ym 1994, mae'r Loteri Genedlaethol wedi codi mwy na £50biliwn ar gyfer achosion da. Rydym wedi dosbarthu dros £8.6bn o hynny i fwy na 47,000 o brosiectau treftadaeth ar draws y DU.

Mae'r prosiectau hyn yn aml yn benllanw blynyddoedd o ymroddiad, cred a gwirfoddoli. Maent yn dod â phobl a chymunedau ynghyd ac yn adeiladu balchder yn eu lle.

I nodi pen-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 heddiw – a 30 mlynedd o ariannu ar gyfer treftadaeth – mae 30 o fomentau trawsnewidiol yn cael eu harddangos mewn arddangosfa ffotograffiaeth greadigol a gyflwynir gan yr Oriel Bortreadau Genedlaethol.

Mae’r artist Thomas Duke wedi defnyddio techneg llun-mewn-llun, gan gymysgu’r gorffennol a’r presennol, i ail-greu rhai o’r cyflawniadau pwysicaf a mwyaf eiconig sydd wedi bod yn bosibl diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol.

## Uchafbwyntiau treftadaeth

Ymhlith y momentau a ddewiswyd mae naw prosiect treftadaeth a dderbyniodd ariannu sylweddol gan y Loteri Genedlaethol.

### The Eden Project



**The Eden Project** – cyfres o conservatories anferth a adeiladwyd mewn pwll clai segur – yn agor yng Nghernyw, yn 2001

## Canolfan Ymwelwyr Sarn y Cawr



Agorwyd **Canolfan Ymwelwyr Sarn y Cawr** yn Swydd Antrim gan y Prif Weinidog Peter Robinson a’r Dirprwy Brif Weinidog Martin McGuinness, yn 2012

## Amgueddfa'r Mary Rose



Agorodd **Amgueddfa'r Mary Rose**, sy'n gartref i longddrylliad llong enwog Harri'r VIII, yn Portsmouth, yn 2013

**Parc Bletchley**



Ailagorodd **Parc Bletchley**, cartref i ymdrechion torri côd y Cynghreiriaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ar ôl gwaith adfer mawr, yn 2014

## Ail-gladdwyd Richard III yn Eglwys Gadeiriol Caerl?r



**Ail-gladdwyd Richard III** – y darganfuwyd ei gorff wedi'i gladdu o dan faes parcio'n enwog – **yn Eglwys Gadeiriol Caerl?r**, yn 2015

## Ailgyflwynwyd Eryr aur



**Ailgyflwynwyd Eryr aur** yn Dumfries, Galloway a Gororau'r Alban, yn 2018

## Gosodiad celf y Cofio 'Poppies: Wave and Weeping Window'



Arddangoswyd **Gosodiad celf y Cofio 'Poppies: Wave and Weeping Window'** yn yr Amgueddfa Ryfel Ymerodrol, Llundain yn 2018

## The Flying Scotsman



Dathliadau canmlwyddiant **The Flying Scotsman steams again**, yng Nghaeredin, yn 2023

## Fern the Diplodocws



Dadorchuddiwyd **Fern the Diplodocws** yn yr ardd newydd, Amgueddfa Hanes Natur, Llundain, yn 2024

## Ysbrydoli pobl a balchder

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Mae’r Loteri Genedlaethol wedi trawsnewid treftadaeth, gan ariannu miloedd o brosiectau ar draws y DU i ysbrydoli pobl, cysylltu cymunedau a chreu balchder yn y lleoedd rydym yn byw ac yn gweithio ynddynt.

“Mae cofnodi'r momentau trawsnewidiol hyn yn adlewyrchu ein treftadaeth hynod amrywiol – o’r archeoleg o dan ein traed, adeiladau hanesyddol a’n hetifeddiaeth forol, i atgofion a chasgliadau amhrisiadwy, tirweddau syfrdanol, parciau a bywyd gwyllt prin.

“Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol dros y 30 mlynedd diwethaf, a’r rhai sydd i ddod, byddwn yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am ein treftadaeth a rennir ac yn ei chynnal i bawb, nawr ac yn y dyfodol.”

Bwrw golwg ar bob un o'r 30 o ffotograffau yn yr arddangosfa Game Changing Moments ar wefan yr Oriel Bortreadau Genedlaethol. [dolen: https://www.npg.org.uk/GameChangingMoment ]

## Cymerwch ran

Dathlwch ben-blwydd y Loteri Genedlaethol yn 30 oed a’r rhai sydd wedi gwneud y momentau hyn yn bosibl trwy rannu hunlun bysedd croes ar gyfryngau cymdeithasol heddiw (19 Tachwedd). Tagiwch ni yn @HeritageFundCYM a defnyddiwch yr hashnod #DiolchiChi yn eich postiadau.

## ddordeb hefyd mewn ...



### Dewch i gwrdd â saith o bobl sydd wedi 'newid y gêm' ar draws treftadaeth, tir a natur



Gorsaf Tilbury Riverside.



**ctau treftadaeth cyn ein penblwydd 30**

**30 prosiect dros 30 mlynedd**